# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 2

MANNAU NAD YDYNT AT DDIBENION GWAREDU

### 55 Dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu

(1) Caiff ACC ddynodi rhan o safle tirlenwi awdurdodedig yng Nghymru yn fan nad yw at ddibenion gwaredu drwy ddyroddi hysbysiad i weithredwr y safle.

(2) Rhaid i hysbysiad sy'n dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu bennu—

- (a) y safle tirlenwi awdurdodedig y mae'n ymwneud ag ef,
- (b) ffiniau'r man a ddynodir ganddo, ac
- (c) y dyddiad y mae dynodiad y man yn cael effaith.

(3) Mewn perthynas â'r hysbysiad—

- (a) rhaid iddo bennu'r disgrifiadau o ddeunydd y mae'n rhaid ei ddodi yn y man nad yw at ddibenion gwaredu,
- (b) caiff bennu disgrifiadau o ddeunydd na chaniateir ei ddodi yn y man hwnnw,
- (c) rhaid iddo ei gwneud yn ofynnol i bwysau unrhyw ddeunydd a ddodir yn y man neu a symudir ymaith o'r man gael ei ganfod drwy ddefnyddio dull a bennir yn yr hysbysiad,
- (d) caiff bennu uchafswm y deunydd y caniateir ei gadw yn y man,
- (e) rhaid iddo bennu'r gweithgarwch safle tirlenwi y caniateir ei gyflawni yn y man, ac
- (f) rhaid iddo bennu'r cyfnod hwyaf y caniateir cadw deunydd yn y man.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(4) Caiff y ddarpariaeth a wneir gan yr hysbysiad o dan is-adran (3) gynnwys—

(a) darpariaeth sy'n ddarostyngedig i amodau neu eithriadau, a

(b) darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol (gan gynnwys disgrifiadau gwahanol o ddeunydd).

(5) Caiff ACC amrywio neu ganslo dynodiad o dan yr adran hon drwy ddyroddi hysbysiad pellach i weithredwr y safle.

(6) Mewn perthynas â hysbysiad sy'n amrywio neu'n canslo dynodiad—

(a) rhaid iddo nodi manylion yr amrywio neu'r canslo,

(b) rhaid iddo bennu'r dyddiad y mae'n cael effaith, ac

(c) caiff bennu'r camau y mae'n ofynnol i'r gweithredwr eu cymryd mewn cysylltiad â'r amrywio neu'r canslo, neu'r camau y caniateir iddo eu cymryd mewn cysylltiad â hynny.

(7) Caiff ACC wneud, amrywio neu ganslo dynodiad o dan yr adran hon—

(a) ar gais gweithredwr y safle tirlenwi awdurdodedig y mae'r dynodiad yn ymwneud ag ef, neu

(b) ar ei gymhelliad ei hun.

(8) Rhaid i gais i ddynodi, i amrywio neu i ganslo gael ei gyflwyno mewn ysgrifen.

(9) Os yw ACC yn gwrthod cais, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad am ei benderfyniad i weithredwr y safle tirlenwi awdurdodedig.

(10) Caiff rheoliadau ddiwygio'r adran hon er mwyn gwneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch yr hyn sydd i'w gynnwys mewn hysbysiad a ddyroddir o dan yr adran hon.